
Urdd

# Cynllun Corfforaethol Urdd Gobaith Cymru 2019 - 2022

Yn glir ein gweledigaeth – barod i'r dyfodol

**Annog • Dathlu • Arloesi**


B82



# Cynnwys


1. Rhagair
2. Yr Urdd Heddiw
3. Nod yr Urdd
4. Ein Gweledigaeth
5. Ein Blaenoriaethau 2019-2022
6. Cyd-destun Polisi yng Nghymru
7. Gwersylloedd yr Urdd
8. Chwaraeon
9. Gwaith Ieuenctid
10. Maes a Chymuned
11. Eisteddfod a'r Celfyddydau
12. Prentisiaethau a Sgiliau
13. Rhyngwladol a'r Neges Heddwch
14. Cyfathrebu a Datblygu Maes Digidol
15. Rhagolwg Ariannol

# 1. Rhagair

Mae'r Urdd yn fudiad unigryw ac ers 1922, wedi cyflawni llawer wrth gynnig profiadau Chwaraeon, Celfyddydol, Preswyl, Dyngarol a Gwirfoddoli i fwy na 4 miliwn o blant a phobl ifanc yng Nghymru. Heddiw mae gan yr Urdd 55,000 o aelodau. Mae hyn wedi eu galluogi i gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau a chymdeithas, ymestyn eu gorwelion a chynyddu eu hunan hyder.

Mae'r Urdd wedi meithrin cenedlaethau o ferched a dynion ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i'r byd ac yn ymgorfforiadau o'n hiaith a'n diwylliant, yn ogystal â meddu ar y gwerthoedd byd-eang y parchir yng Nghymru.

Ar drothwy ein canmlwyddiant, dyma ddatgan ein huchelgais heriol i ymestyn cyrhaeddiad ac effaith ein gwaith. Mae hyn yn allweddol os ydym am i'r Gymraeg fod yn ganolog ym mywydau plant a phobl ifanc Cymru, a sicrhau fod pawb yng Nghymru, boed yn siaradwyr Cymraeg ai peidio, yn teimlo perchnogaeth ac ymdeimlad o berthyn tuag at yr iaith a'i thraddodiadau.



# 2. Yr Urdd Heddiw

- **10,000 o wirfoddolwyr**
- **308 o staff**
- **100,000 yn cystadlu yng nghystadlaethau chwaraeon yr Urdd**
- **47,000 yn mynychu'r gwersylloedd**
- **68,000 yn cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd**
- **60% o holl ysgolion Cymru yn ymwneud â'r Urdd**
- **Cynhyrchu gwerth economaidd o £31m i Gymru**
- **£7m o fuddsoddiad cyfalaf yn y gwersylloedd**
- **Llais ein pobl ifanc yw sylfaen ein mudiad**
- **Adran Prentisiaethau newydd**
- **Amserlen uchelgeisiol ar y gweill i ddathlu canmlwyddiant yr Urdd**
- **Bwriad i weithredu Strategaeth Ryngwladol**

**Ein gwirfoddolwyr**
Mudiad gwirfoddol yw'r Urdd, gyda 10,000 o wirfoddolwyr yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau cyfleoedd cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc mewn cymunedau ar draws Cymru. Mae eu cyfraniad yn allweddol a thrwy gefnogi a meithrin gwirfoddolwyr rydym yn sicrhau darpariaeth ddiogel ac o safon gan roi buddiannau plant a phobl ifanc wrth wraidd eu gweithredoedd.

**Partneriaethau**
Trwy gydweithio er lles buddiannau plant a phobl ifanc a'r Gymraeg, rydym yn manteisio ar gryfderau ein gilydd. Trwy bartneriaethau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, llwyddwn i gynnig profiadau a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc trwy gydol y flwyddyn.

**Yr Urdd ac Addysg yng Nghymru**
Mae'r gefnogaeth a roir i'r Urdd oddi wrth athrawon ac ysgolion Cymru yn amhrisiadwy. Trwy brofiadau cyfoethogi'r Urdd, rydym yn cefnogi ymdrechion athrawon ac ysgolion Cymru wrth iddynt gyflawni 4 pwrpas Cwricwlwm Newydd Llywodraeth Cymru a chyflwyno'r Gymraeg i bob disgybl yng Nghymru.

# 3. Nod

Nod Urdd Gobaith Cymru yw sicrhau cyfle, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i holl ieuenctid Cymru (rhwng 8 a 25 oed) ddatblygu'n unigolion cyflawn; a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas, gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol.

## Amcanion

**ANNOG**
- I ddefnyddio'r Gymraeg
- I fod yn rhan o weithgareddau'r Urdd

**DATHLU**
- Llwyddiant plant a phobl ifanc
- Natur unigryw'r Urdd

**ARLOESI**
- Creu cyfleoedd newydd i'n haelodau
- Bod y gorau yn y maes

## Cydnabyddiaeth allanol am ddarpariaeth yr Urdd 2018-2019

- Marc Ansawdd Efydd - Gwaith Ieuenctid yng Nghymru
- Marc Ansawdd Arian - Gwaith Ieuenctid yng Nghymru
- Chwaraeon Anabledd Cymru – Ribbon Award
- CIPD Cymru, Cynllun Prentisiaethau – Gwobr Arian
- Rhestr Fer - Gwobrau Prentisiaethau Cymru – Cyflogwr Mawr y Flwyddyn
- Rhestr Fer – Gwobrau Prentisiaethau Cymru – Prentis Sylfaen y Flwyddyn
- Gwobrau Ieuenctid Llywodraeth Cymru – Enillwyr gwaith Rhyngwladol
- 4 Seren Croeso Cymru – Gwersyll Llangrannog
- Ddraig Werdd Lefel 3 – Gwersyll Llangrannog
- Tystysgrif AALA - Adventure Activities Licensing Authority
- Tystysgrif Adventuremark - Adventure Activities Industry Advisory Committee
- Cyflogwr achrededig gan y Sefydliad Cyflog Byw

## Erbyn 2022 bydd yr Urdd yn anelu at ennill y gydnabyddiaeth ganlynol

- Gwobr Elusen Ddibynadwy (PQASSO)
- Marc Ansawdd Aur - Gwaith Ieuenctid yng Nghymru
- Chwaraeon Anabledd Cymru – Marc Aur

# 4. Ein Gweledigaeth

Mae ein cynllun corfforaethol yn gosod ein huchelgais hyd at ein Canmlwyddiant yn 2022 **i sicrhau fod mwy o blant a phobl ifanc yn cael mynediad at ein darpariaeth ac i ddefnyddio'r Gymraeg mewn awyrgylch gadarnhaol a chymdeithasol.**

Bwriadwn feithrin eu hyder a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn datblygu hunanwerth a hapusrwydd yn eu bywydau dyddiol ac i'r dyfodol.

Rydym am i'r Urdd fod yn fwy agored a chynhwysol er mwyn sicrhau fod gan gan blant a phobl ifanc Cymru o bob cefndir cymdeithasol fynediad hawdd i'n gwaith. Bydd ein darpariaeth yn seiliedig ar hawliau plant ac yn sicrhau ffyniant yr iaith Gymraeg.

I gyflawni hyn mae angen i'r Urdd fod y gorau yn ei maes. Rydym am i'r Urdd fod y prif bwynt mynediad at gyfleoedd cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc yng Nghymru ac i fod y lle gorau i weithio ac i wirfoddoli.

Yn graidd i'n huchelgais bydd yr Urdd yn:

- Gyfoes i bawb
- Cyfrannu at ddatblygiad personol a chymdeithasol plant a phobl ifanc
- Ysbrydoli plant a phobl ifanc i ymwneud â'r Gymraeg
- Medru addasu i anghenion plant a phobl ifanc trwy wrando ar eu llais
- Berthnasol i blant a phobl ifanc mewn byd sydd yn brysur newid.

Byddwn yn sicrhau bod darpariaeth sy'n addas i ddysgwyr Cymraeg yn greiddiol i holl wasanaethau a chyfleoedd yr Urdd.

Mae darpariaeth yr Urdd yn seiliedig ar lais ein haelodau. Erbyn heddiw mae gennym dau ymddiriedolwr ifanc, rhwydwaith o fforymau ieuenctid rhanbarthol a'r Fforwm Ieuenctid Cenedlaethol, Bwrdd Syr IfanC sy'n sicrhau bod llais ein haelodau wrth wraidd ein mudiad.



# 5. Blaenoriaethau 2019 - 2022

**Agor ein drysau i fwy o blant a phobl ifanc i gael mynediad at ddarpariaeth o ansawdd ac i ddefnyddio'r Gymraeg mewn awyrgylch positif a chymdeithasol.**

- Datblygu apêl Eisteddfod yr Urdd i'n haelodau ac i'n hymwelwyr.
- Ymestyn arlwy a chyrhaeddiad cystadlaethau chwaraeon cenedlaethol yr Urdd.
- Sefydlu model gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg cenedlaethol ar draws Cymru.
- Buddsoddi yn y 3 gwersyll er mwyn cynnig y profiadau gorau.
- Ymestyn cyrhaeddiad ein gwasanaethau awyr agored ar draws Cymru.
- Darparu cyfleoedd prentisiaethau cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc ar draws Cymru.
- Anelu at gyrhaeddiad byd eang ar gyfer Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd.
- Cynnig cyfleoedd a phrofiadau rhyngwladol i aelodau'r Urdd.
- Sefydlu system ddata sy'n cryfhau ein dulliau cyfathrebu gyda'n haelodau a phartneriaid.
- Creu arlwy celfyddydol i'n haelodau yn eu cymunedau.
- Dathlu canmlwyddiant yr Urdd 2022 drwy gydnabod y gorffennol ac arloesi at y dyfodol.
- Datblygu Pentre' Ifan Sir Benfro, yn bedwerydd Gwersyll yr Urdd.



# 6. Cyd-destun Polisi yng Nghymru

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

| | |
|---|---|
| Gwersylloedd<br>Awyr Agored<br>Chwaraeon<br>Dyngarol a Rhyngwladol<br>Cymunedol<br>Ieuenctid<br>Celfyddydau a'r Eisteddfod<br>Prentisiaethau a Sgiliau | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru Iachach<br>Cymru sy'n gyfartal<br>Cymru â diwylliant lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru o gymunedau<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd eang |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg | Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl Ifanc | | | |
| Cwricwlwm I Gymru 2022 | Dysgwyr uchelgeisiol galluog | Cyfranwyr mentrus creadigol | Dinasyddion gwybodus ac egwyddorol | Unigolion iach a hyderus |
| Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion | Grymusol | Cyfranogi | Mynegiannol | |
| | Cynhwysol | Addysgol | | |

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant

# 7. Gwersylloedd yr Urdd

Mae gan yr Urdd dri phrif wersyll yn Llangrannog, Glan-llyn a Chaerdydd ynghyd â chanolfan Pentre' Ifan, Sir Benfro a'r ganolfan yn Hwngari. Mae'r holl ganolfannau preswyl yn cynnig cyfleoedd i blant, ieuenctid ac oedolion i breswylio, addysgu a chymdeithasu mewn awyrgylch Gymraeg a Chymreig, proffesiynol, diogel a chroesawgar.

### Gwersyll Llangrannog

1. Cynyddu'r niferoedd o wersyllwyr craidd sy'n mynychu'r gwersyll yn flynyddol.
2. Gweithredu cynllun 'Calon y Gwersyll'.
3. Sefydlu Hwb Ddigidol i ddatblygu gallu a sgiliau cynnwys digidol.
4. Datblygu cynlluniau i gynyddu gweithgareddau ehangach, megis:
   - i. Gweithgareddau gofal anifeiliaid ac amgylcheddol
   - ii. Hwb Chwaraeon
   - iii. Canolfan Gweithgareddau Dŵr.

### Gwersyll Glan-llyn

1. Cynyddu'r niferoedd o wersyllwyr craidd sy'n mynychu'r gwersyll yn flynyddol.
2. Trawsnewid Glan-llyn Isa' i ganolfan preswylio hunan ddarpar ôl-16.
3. Gwireddu'r buddsoddiad yn y Canolfan Hyfforddi Dŵr.
4. Datblygu arlwy Gwasanaethau Awyr Agored i fod yn brif ddarparydd Cymru sy'n cynnig profiadau heriol ac ymestynnol.

### Gwersyll Caerdydd

1. Cynyddu'r niferoedd o wersyllwyr craidd sy'n mynychu'r gwersyll yn flynyddol.
2. Sefydlu prosiect blynyddol ar y cyd gyda phartneriaid yn y ddinas.
3. Creu darpariaeth i aelodau 16-25.
4. Datblygu cyfleoedd celfyddydol, diwylliannol a dyngarol gyda phartneriaid.



# 8. Chwaraeon

Mae'r adran yn darparu cyfleoedd ar draws Cymru i bob plentyn wirioni ar chwaraeon, a hynny drwy gynnal clybiau, cystadlaethau, hyfforddiant a gwyliau chwaraeon rhanbarthol a chenedlaethol.

1. Creu cyfleoedd i blant a phobol ifanc ym mhob ysgol cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru i gael y cyfle i fynychu gweithgareddau chwaraeon tu allan i'r ysgol.
2. Bod yn brif ddarparydd cystadlaethau chwaraeon cenedlaethol yn y Gymraeg yng Nghymru.
3. Sefydlu Bwrdd Chwaraeon a Phrentisiaethau Cenedlaethol ynghyd â fforymau chwaraeon ym mhob rhanbarth.
4. Trwy gydweithio gyda Chwaraeon Anabledd Cymru bydd pob cystadleuaeth genedlaethol a chlwb chwaraeon yr Urdd yn gymhwysol i blant a phobl ifanc gydag anabledd. Bydd yr Urdd yn anelu at ennill y Marc Aur Chwaraeon Anabledd Cymru.





## 9. Gwaith Ieuenctid

Trwy gynnal gweithlu cymwys o weithwyr ieuenctid, ac yn unol ag anghenion pobl ifanc, bydd yr Urdd yn ymestyn darpariaeth mynediad agored gan rymuso pobl ifanc wrth iddynt bontio o addysg ffurfiol i'r gweithlu. Gwneir hyn drwy sefydlu model Gwaith Ieuenctid Cyfrwng Cymraeg Cenedlaethol gan gydlynu â strategaeth newydd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.

1. Penodi swyddog ieuenctid ym mhob rhanbarth yng Nghymru a sefydlu'r Urdd yn brif ddarparydd gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg yng Nghymru.
2. Cryfhau llais pobl ifanc yn rhediad y mudiad trwy'r rhwydwaith o lysgenhadon, Fforymau Ieuenctid ar draws Cymru a Bwrdd Syr IfanC a'u grymuso i arwain a dylanwadu ar ddyfodol yr Urdd.
3. Darparu mynediad clir, teg a chynhwysol at gyfleoedd gwirfoddoli'r Urdd.
4. Arwain ar gynllun cydlynu rhanbarthol a chenedlaethol i gefnogi arweinyddion a gwirfoddolwyr ifanc.

## 10. Maes a Chymuned

Daw aelodau'r Urdd i gyswllt â holl weithgareddau'r Urdd drwy Adran y Maes a Chymuned. Gwneir hyn yn bosib drwy gefnogi gwirfoddolwyr, adrannau, canghennau ysgolion ac uwch adrannau ar draws Cymru. Drwy gydweithio gydag Awdurdodau Lleol a phartneriaid lleol, diogelir cysondeb y mynediad i ddarpariaeth yr Urdd.

1. Cynyddu niferoedd a chyrhaeddiad y cyfleoedd sydd ar gael i aelodau'r Urdd yn y cymunedau.
2. Cydweithio gydag athrawon ac ysgolion i gynnig profiadau cyfoethogi o fewn y Cwricwlwm Newydd a chefnogi'r siarter iaith a chynlluniau 'Cymraeg Mewn Addysg'.
3. Ymestyn allan yn strategol i sicrhau bod cynnig yr Urdd yn apelio at ddysgwyr Cymraeg.
4. Datblygu fframwaith cefnogi'r gweithlu gwirfoddol cymunedol i'w galluogi i ymateb i anghenion plant a phobl ifanc.

## 11. Eisteddfod a'r Celfyddydau

Bydd Adran yr Eisteddfod a'r Celfyddydau yn hyrwyddo'r celfyddydau oddi fewn i wasanaethau Urdd Gobaith Cymru i'w aelodau a thrwy hynny'n cyfoethogi a chynyddu cyfleoedd diwylliannol plant a phobl ifanc. Mae'r Eisteddfod yn gatalydd i gyflwyno'r celfyddydau i blant a phobl ifanc, ac yn feithrinfa gelfyddydol i ddatblygu talentau. Mae'r Adran hefyd yn gofalu am Theatr Ieuenctid yr Urdd.

---

1. Cynyddu nifer o gystadleuwyr ac ysgolion sy'n cystadlu yn yr Eisteddfod.
2. Dadansoddi yn barhaus ein darpariaeth llwyfan a'r maes i gynyddu apêl y celfyddydau trwy'r cystadlaethau a'r profiadau ar faes Eisteddfod yr Urdd.
3. Sefydlu yn ein cymunedau cyfleoedd celfyddydol trwy gydol y flwyddyn.
4. Datblygu apêl Theatr Ieuenctid Cenedlaethol yr Urdd i fod yn brif brofiad theatraidd cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc yng Nghrymu.

## 12. Prentisiaethau a Sgiliau

Mae'r adran yn darparu cynlluniau prentisiaethau cyfrwng Cymraeg mewn ystod o lwybrau galwedigaethol ar draws yr Urdd ac i gyrff allanol. Paratowyd strategaeth prentisiaethau'r Urdd gyda'r nod o ddatblygu'n brif ddarparydd trydydd sector, ar gyfer prentisiaethau cyfrwng Cymraeg yng Nghymru. Gwneir hyn drwy:

---

1. Sefydlu adran newydd Prentisiaethau'r Urdd o fewn yr Urdd.
2. Lledaenu'n cynnig prentisiaeth allanol i bob rhanbarth drwy gydweithio'n agos gydag Ysgolion Uwchradd cyfrwng Cymraeg Cymru.
3. Gosod targed o 100 o brentisiaethau mewnol ar draws holl adrannau'r Urdd (Chwaraeon, Ieuenctid, Awyr Agored, Gwersylloedd a Chyfathrebu) erbyn 2022.
4. Cynnig 100 o gyfleoedd prentisiaethau allanol mewn partneriaeth â sefydliadau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yng Nghymru.

# 13. Rhyngwladol a'r Neges Heddwch

Ein huchelgais yw arloesi i sicrhau cyrhaeddiad rhyngwladol yr Urdd dan y faner - *Er mwyn Cymru a Chymru er mwyn y Byd*. Bydd yr Urdd yn cynnig profiadau rhyngwladol i blant a phobl ifanc er mwyn llysgenhadu ar ran Cymru a'r Gymraeg. Drwy weithio gyda phartneriaid, hyrwyddir yr Urdd fel mudiad cyfrwng Cymraeg sydd yn enghraifft wych o ddarpariaeth plant a phobl ifanc ar draws sawl maes.

---

1. Datblygu Neges Heddwch ac Ewyllys Da yn gynllun ymgyrchu hawliau plant a phobl ifanc byd eang.
2. Sefydlu partneriaethau er mwyn galluogi aelodau'r Urdd i gystadlu yng nghystadlaethau chwaraeon rhyngwladol.
3. Ehangu apêl yr Eisteddfod a'r Celfyddydau Cymreig i blant a phobl ifanc tu hwnt i Gymru.
4. Creu cyswllt er mwyn rhannu arfer da a chyfle i gydweithio rhwng gwersylloedd yr Urdd a chanolfannau preswyl ieuenctid ar draws y byd.
5. Grymuso pobl ifanc i wirfoddoli tramor a llysgenhadu ar ran yr Urdd a Chymru.
6. Sefydlu prosiect 'Cymry/Urdd Ryngwladol' i gryfhau ein cyswllt gyda Chymry ar wasgar.
7. Cynnal Gwersyll Rhyngwladol a Chynhadledd Ieuenctid y Byd.



# 14. Cyfathrebu a Datblygu Maes Digidol yr Urdd

Bydd buddsoddiad sylweddol yn systemau technoleg gwybodaeth yr Urdd yn gwella ein cyfathrebu uniongyrchol gydag aelodau, rhieni, gwarchodwyr a phartneriaid. Bydd yn galluogi ein staff i ymwneud â gwaith marchnata a chysylltiadau cyhoeddus y mudiad.

1. Unioni systemau data aelodaeth y mudiad, i sicrhau bod gwybodaeth gyfredol gan y mudiad er mwyn diogelu gofynion cydraddoldeb ac amrywiaeth ein haelodau.
2. Cyfathrebu i aelodau, rhieni / gwarchodwyr a gwirfoddolwyr mewn dull blaengar ac effeithlon gan symud tuag at gyfathrebu uniongyrchol ac ateb gofynion ein cynulleidfa amrywiol.
3. Cynnal a datblygu gwefan apelgar sy'n rhannu gwybodaeth ac yn hyrwyddo holl waith y mudiad mewn ffurf ddeinamig a hwylus.
4. Yn 2021 sefydlu 'portal' diogel sy'n caniatáu aelod / rhiant / arweinydd (boed yn athro neu wirfoddolwr) i dderbyn profiad personol wedi'i deilwra, ac er mwyn cael mynediad i hanes yr unigolyn gyda'r Urdd a'r hyn sydd ar gael iddynt.
5. Datblygu apêl gan barhau i gynnal cylchrediad print a chynyddu diwyg a chyrhaeddiad yn ddigidol.
6. Gweithredu cynllun cyfathrebu i sicrhau fod prif ddatblygiadau corfforaethol yr Urdd yn cael sylw ar y prif blatfformau cyfryngol cenedlaethol.

# 15. Rhagolwg Incwm a Chostau Urdd Gobaith Cymru

| INCWM | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|
| Llangrannog | 3,020,000 | 3,100,000 | 3,200,000 |
| Glan-llyn | 1,904,000 | 2,000,000 | 2,100,000 |
| Caerdydd | 915,500 | 952,000 | 1,000,000 |
| Eisteddfod | 1,595,000 | 1,650,000 | 1,700,000 |
| Gwerthiant | 100,000 | 105,000 | 110,000 |
| Aelodaeth | 510,000 | 535,000 | 560,000 |
| Cymynroddion / Buddsoddiadau | 140,000 | 145,000 | 150,000 |
| Grantiau | 1,920,000 | 1,950,000 | 1,980,000 |
| Chwaraeon | 360,000 | 375,000 | 400,000 |
| Other | 120,000 | 130,000 | 140,000 |
| Grant / Buddsoddiad Cyfalaf | 1,970,262 | 705,988 | 73,750 |
| **CYFANSWM** | **12,554,762** | **11,647,988** | **11,413,750** |

| GWARIANT | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|
| Llangrannog | 2,425,000 | 2,500,000 | 2,575,000 |
| Glan-llyn | 1,700,000 | 1,780,000 | 1,880,000 |
| Caerdydd | 670,000 | 700,000 | 740,000 |
| Eisteddfod | 1,750,000 | 1,800,000 | 1,850,000 |
| Costau Gweithgareddau Elusennol | 1,800,000 | 1,900,000 | 2,000,000 |
| Costau Trefn lywodraethol | 170,000 | 170,000 | 170,000 |
| Cylchgronau / Arall | 510,000 | 510,000 | 510,000 |
| Chwaraeon | 1,100,000 | 1,125,000 | 1,150,000 |
| Datblygu Adnoddau / Prosiectau Arbennig | 350,000 | 350,000 | 350,000 |
| Gwariant Buddsoddiad Cyfalaf | 1,970,262 | 705,988 | 73,750 |
| **CYFANSWM** | **12,445,262** | **11,540,988** | **11,298,750** |

**Yn y cyfnod 2019-2022, mae'r Urdd yn awyddus i weithredu'r cynlluniau gwariant newydd canlynol. I wireddu'r cynlluniau yma, dengys y tabl fuddsoddiad gan yr Urdd, ein llwyddiant i ddenu cymorth ariannol a'n bwriad i ddenu cyllid ychwanegol.**

| Disgrifiad | Gwariant | Grantiau allanol mewn lle | Buddsoddiad Urdd | Cynlluniau ar waith i chwilio am fuddsoddiad allanol | Cyfanswm Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfalaf Gwersylloedd | **6,000,000** | 3,350,000 | 2,250,000 | 400,000 | **6,000,000** |
| Technoleg Gwybodaeth yr Urdd | **400,000** | | 400,000 | | **400,000** |
| Rhyngwladol a Neges Heddwch | **650,000** | | 200,000 | 450,000 | **650,000** |
| Datblygiadau Llangrannog | **450,000** | | | 450,000 | **450,000** |
| Adran Prentisiaethau | **330,000** | | 330,000 | | **330,000** |
| Gwedd-newid Pentre' Ifan | **1,000,000** | | | 1,000,000 | **1,000,000** |
| Hwb Ddigidol Llangrannog | **150,000** | | 75,000 | 75,000 | **150,000** |
| Gwaith Ieuenctid | **1,800,000** | | 300,000 | 1,500,000 | **1,800,000** |
| Dathlu 100 | **500,000** | | 500,000 | | **500,000** |
| Gwasnaethau Awyr Agored | **150,000** | | | 150,000 | **150,000** |
| Cystadlaethau Chwaraeon Cenedlaethol (newydd) | **110,000** | | | 110,000 | **110,000** |
| **Cyfanswm** | **11,540,000** | **3,350,000** | **4,055,000** | **4,135,000** | **11,540,000** |

**Cyfalaf y Gwersylloedd**, sydd yn cynnwys Calon Gwersyll Llangrannog, Glan-llyn Isa' a Chanolfan Hyfforddiant Gweithgareddau Dŵr yng Nglan-llyn. Y bwriad yw datblygu gwersylloedd Glan-llyn a Llangrannog i arloesi 'dysgu tu allan i'r dosbarth' mewn amgylchedd diogel i alluogi plant a phobl ifanc i ddysgu, datblygu'n bersonol a chymdeithasol ac i gynyddu eu hyder yn eu defnydd o'r Gymraeg.

Buddsoddi i weddnewid ein **systemau data** i alluogi cyfathrebu a rhyngweithio yn llwyr ddigidol gyda'n haelodau, rhieni, cwsmeriaid a rhandeiliaid mewnol ac allanol.

**Rhyngwladol a'r Neges Heddwch ac Ewyllys Da**, i wireddu cynlluniau ar gyfer cyrhaeddiad byd eang y neges a galluogi profiadau rhyngwladol i blant a phobl ifanc i lysgenhadu ar ran Cymru a'r Gymraeg.

**Dathlu Canmlwyddiant yr Urdd**, i wireddu cynlluniau uchelgeisiol i ddathlu cyfraniad yr Urdd a'i haelodau i Gymru a'r Gymraeg.

Sefydlu a chynnal **Adran Prentisiaethau** i ymsefydlu ei hun fel y prif ddarparwr prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru, gyda tharged ar gyfer canmlwyddiant yr Urdd yn 2022 i gynnig 100 o brentisiaethau yn yr Urdd.

Cynllun cyffroes i adfywio **Pentre' Ifan, Sir Benfro** yn bedwerydd Gwersyll yr Urdd.

**Hwb Ddigidol yn Llangrannog**, i ddatblygu sgiliau plant a phobl ifanc i greu cynnwys a chynnyrch digidol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol digidol.

**Gwaith Ieuenctid** – buddsoddi i gyflogi swyddogion Ieuenctid er mwyn sefydlu cynnig Gwaith Ieuenctid Cyfrwng Cymraeg cyson a theg ar draws Cymru.

**Cystadlaethau Chwaraeon Cenedlaethol (newydd)** – datblygu a sefydlu cystadlaethau chwaraeon cenedlaethol yn y Gymraeg i blant a phobl ifanc.

**Datblygiadau Llangrannog** – i sefydlu Canolfan Gofal Anifeiliaid gan gynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc i ddysgu am fywyd cefn gwlad.

**Gwasanaethau Awyr Agored** - buddsoddi i ehangu cynnig Gwasanaethau Awyr Agored yr Urdd i bobl ifanc ar draws Cymru.


Chwaraeon
mitre
mitre